Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

# Llyfryn Arddangosfeydd a Noddwyr

# Pam cefnogi Cartrefi Cymunedol Cymru?

Cartrefi Cymunedol Cymru yw llais cymdeithasau tai yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw gwneud Cymru yn wlad lle mae tai da yn hawl sylfaenol i bawb.

Am dros 30 mlynedd rydym wedi cefnogi sector tai Cymru, drwy gynrychioli 33 o gymdeithasau tai dim-er-elw sy'n darparu bron 174,000 cartref i 10% o boblogaeth Cymru.

Mae ein cynadleddau yn denu rhai o wneuthurwyr penderfyniadau allweddol ein haelodaeth, ynghyd â rhanddeiliaid blaenllaw yn y sector a phartneriaid, llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru. Cânt eu datblygu mewn cysylltiad gyda'r sector i rannu arfer gorau, syniadau newydd, datrysiadau a chyfleoedd rhwydweithio. Drwy gymryd rhan yn ein cynhadledd, rydych yn dangos eich ymrwymiad i gefnogi'r sector tai yng Nghymru. Bydd ein cefnogi yn rhoi cyfle gwerthfawr tu hwnt i chi gysylltu gyda'r sector ar amrywiaeth o faterion cyfoes, gan rannu eich arbenigedd a'ch gwybodaeth unigryw.

Mae amrywiaeth o gyfleoedd noddi ar gyfer pob un o'n cynadleddau yn cynnwys noddi, cyfleoedd arddangos a phecynnau rhwydweithio yn cynnwys ciniawau a derbyniadau.

**I gael mwy o wybodaeth am argaeledd ar gyfer y cynadleddau sydd gennym ar y gweill cysylltwch â events@chcymru.org.uk**

# Cynadleddau ar y gweill


Mae gennym nifer o gynadleddau ar y gweill ar hyd y flwyddyn i ddod, fydd yn denu arweinwyr a rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector tai.

## Cynhadledd Llywodraethiant
Mawrth 2025

## Un Gynhadledd Tai Fawr
Gorffennaf 2025

## Cynhadledd Cyllid
Hydref 2025

## Cynhadledd Flynyddol
Tachwedd 2025



# Adborth o gynadleddau blaenorol

“Cynhadledd hollol wych ac mae’r gefnogaeth gan staff CCC yn hyfryd”


**Jackie Leonard**
CHIC






“Roedd y trefniadau yn wych a’r tîm yn gweithio’n wirioneddol galed i sicrhau fod gennym bopeth roeddem ei angen”

**Bev Garside**
Charity Job Finder



# Adborth o gynadleddau blaenorol




“Cawsom amser gwych yn y gynhadledd, cwrdd â llawer o wahanol bobl a chael llawer o sgyrsiau difforol”

**Jo Bendon**
Sefydliad Cymunedol Dinas Caerdydd

“Roedd yr agenda yn ennyn diddordeb y sawl oedd yn bresennol, gyda chyffro go iawn yn yr ystafell”

**Sarah MacGregor**
Savills





# Pecynnau

## Pecyn noddwr aur

**Prif noddwr y digwyddiad**

**Pecyn yn cynnwys:**

- Noddi prif siaradwr
- Cyfle i gael slot siarad yn ystod y gynhadledd
- Cynnwys logo ar holl ddeunyddiau'r digwyddiad
- Brandio perthnasol mewn digwyddiad byw
- Cynnwys logo ar wefan CHC
- Cydnabyddiaeth lafar o'ch cefnogaeth
- Cydnabyddiaeth ar y cyfryngau cymdeithasol
- Gofod yn yr arddangosfa
- Dau docyn
- 50% i ffwrdd tocynnau ychwanegol

**£7,000**



# Pecynnau

## Pecyn noddwr arian

**Pecyn yn cynnwys:**

- Noddi derbyniad diodydd cyn-cinio a diodydd yn y cinio
- Cyfle i roi araith groeso yn y derbyniad diodydd
- Cynnwys logo ar y pecyn gwefan a deunyddiau'r digwyddiad
- Brandio perthnasol mewn digwyddiad byw
- Cynnwys logo ar wefan CHC
- Cydnabyddiaeth lafar o'ch cefnogaeth
- Cydnabyddiaeth ar y cyfryngau cymdeithasol
- Gofod yn yr arddangosfa
- Dau docyn
- 25% i ffwrdd tocynnau ychwanegol

**£4,500**

---

## Pecyn noddwr efydd

**Pecyn yn cynnwys**

- Cynnwys logo ar y pecyn gwefan a deunyddiau'r digwyddiad
- Brandio perthnasol mewn digwyddiad byw
- Cydnabyddiaeth ar y cyfryngau cymdeithasol
- Gofod yn yr arddangosfa
- Un docyn
- 25% i ffwrdd tocynnau ychwanegol

**£2,500**



# Cyrraedd

Drwy gefnogi ein cynadleddau rydych yn cyrraedd cynulleidfa Cartrefi Cymunedol o dros 15,000 o ddefnyddwyr cyfryngau cymdeithasol

Yn ystod ein cynadleddau deuddydd rydym wedi cyrraedd dros 67,000 o ddefnyddwyr cyfryngau cymdeithasol, cael bron 6,000 edrychiad fideo a chysylltu gyda dros 3,000 o rhanddeiliaid a ffigurau allweddol ar draws y sector.

Mae ein digwyddiadau yn denu cynulleidfaoedd allweddol o bob rhan o'r sector tai yng Nghymru. Gyda 100% o'n haelodau yn mynychu ein cynadleddau drwy gydol y flwyddyn, rydym yn rhoi cyfleoedd heb eu hail ar gyfer ymgysylltu. Caiff y digwyddiadau hyn hefyd eu mynychu gan randdeiliaid allweddol, yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, cyrff trydydd sector a phartneriaid sector preifat.

Yn garreg filltir hanfodol yng nghalendr y sector, mae ein digwyddiadau yn cynnig cyfle ar gyfer cydweithio, ailgysylltu a bod yn rhan o'r sgyrsiau sy'n llunio dyfodol tai Cymru.

## Gwybodaeth i Arddangoswyr

Bydd y cytundeb arddangos/noddi rhwng **Cartrefi Cymunedol Cymru** a'ch sefydliad/cwmni, nii chaniateir rhannu stondinau.

Ymrwymir i'r cytundeb yn annibynnol o a heb unrhyw amod yn gysylltiedig ag unrhyw ddêl fasnachol yn y dyfodol rhwng **Cartrefi Cymunedol Cymru** a'ch sefydliad/cwmni.

Yswiriant – Dylai arddangoswyr sicrhau fod ganddynt ddiogeliad yswiriant digonol pan fyddant yn mynychu un o'n arddangosfeydd. Mae bellach yn orfodol fod gennym dystiolaeth o'ch yswiriant ac asesiad risg cyn i chi gyrraedd a sefydlu a dechrau gosod eich stondin. Caiff eich logo a disgrifiad byr o'r sefydliad eu cynnwys ym mhecyn gwefan y gynhadledd, a gaiff ei rannu gyda phob cynrychiolydd a siaradwr yn y digwyddiad. Caiff logos hefyd eu dangos ar arwyddion y digwyddiad a'r deciau sleidiau a ddefnyddir mewn sesiynau llawn.

Byddwn angen logo ansawdd uchel ar ffurf vector a disgrifiad heb fod yn fwy na 150 gair wedi'i ysgrifennu yn y trydydd person.

Byddwn yn cyfeirio at eich gwefan os na daw yr adnoddau hyn i law erbyn y dyddiad a nodir.

Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

**events@chcymru.org.uk**
Community Housing Cymru, 14 Neptune Court, Office 26,
Vanguard Way, Caerdydd/Cardiff, CF24 5PJ